❖ Un Seren o'r Diwedd

Craffwch, o'r diwedd, ar Un seren,
Unrhyw seren yn y lluwchwynt cylchol o sêr.
Fe'ch dygir gan y seren honno
Sut ble bynnag
At Angau a Geni a Chariad.
Mae'r Golomen ymhlyg yn awr.
Ynghau, wedi ei lapio gan y sêr,
Syrth y glaw du,
Cwyd y llifogydd chwerw o hyd.
Pa law a gymer y gainc o big y Golomen?
Safwn, tri chrwydryn wrth y drws olaf.
Erys dwrn du,
Seren ar bren crin.
Seren.

Herbert Hughes

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com